OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1222 (Cy. 250)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M48 (Y Gerbytffordd a'r Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 2, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Tachwedd 2018* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Drafford yr M48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M48 (Y Gerbytffordd a'r Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 2, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2018.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

---

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd yr M48 Llundain i Abergwaun.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Tachwedd 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

1. Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 hyd at bwynt 500 metr i'r dwyrain o drosbont ddwyreiniol wrth y gyffordd honno.

2. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2.